

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Ionawr 6ed, 2015

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Alan Jones Evans, Cyngorydd Gwynedd, Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1383 Dymunodd y Cadeirydd flwyddyn newydd dda i bawb a mynegodd balchder fod y Cyngorydd Sir a'r Swyddog Ariannol yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

1384 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1385 Datganodd Beryl Hughes Griffiths buddiant yn y cais cynllunio yn ymwneud ag Eglwys Deiniol Sant.

1386 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2il 2014

1387 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda

1388 Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir a soniodd yn benodol am y toriad i grant Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru, corff sydd yn allweddol i siarad ar ran y Cyngorau Sir gyda Llywodraeth Cymru.

1389 Derbyniwyd Adroddiad Is-bwyllgor y Fynwent a chytunwyd gyda'r Argymhellion:

ARGYMHELLIAD 1: gan fod y Cytundeb presennol yn dod i ben, hysbysebu am dendrau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw o Ebrill 2015 **Gweithredu: Clerc**

ARGYMHELLIAD 2: gyda sêl bendith yr Archwilydd John Roberts, creu pro forma o anfoneb i gynnwys yr amrywiol achlysuron a chostau ar gyfer ei hanfon at ymgwymerwyr **Gweithredu: Clerc a Chlerc Y Fynwent**

ARGYMHELLIAD 3: derbyn opsiwn 3 o'r rhestr ffioedd a gyflwynwyd

ARGYMHELLIAD 4: rhoi gwahoddiad agored trwy lythyr ac yn y wasg leol i bersonau / cwmnïau fod ar restr gydnabyddedig o dorwyr beddau Cyngor Cymuned Llanuwchllyn **Gweithredu: Clerc a Chlerc Y Fynwent**

Tynnwyd sylw at groes bren a osodwyd yn ddiweddar yn y fynwent newydd a chytunodd i geisio canfod y sawl a'i gosododd. **Gweithredu: Arwel Lloyd Jones**

1390 Materion Eiddo'r Cyngor

- i Wal y fynwent – adroddodd Arwel Lloyd Jones fod mater trwsio'r wal mewn llaw.
- ii Toiledau cyhoeddus – diolchwyd i Karl Jones am baratoi cynllun a braslun o gostau ar gyfer uwchraddio'r toiledau. Cytunwyd:

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- i geisio sicrhau fod y gwaith brys yn cael ei wneud yn fuan **Gweithredu: Huw Antur**
- i chwilio am grantiau i gyflawni unrhyw uwchraddio sylweddol. **Gweithredu: Clerc.**

1391 Materion ariannol

- Cytunwyd gydag argymhelliad yr is-bwyllgor cyllid ar Gyllideb 2015-16. Cytunwyd i gadw lefel y Praesept yr un fath a llynedd. Derbyniwyd gwybodaeth am y lefel o wariant a ganiateir o dan Adran 137.
- Derbyniwyd gwybodaeth ar lafar ar y sefyllfa ariannol a chytunwyd i ymchwilio ymhellach i fater rhent Cwt yr Hers. **Gweithredu: Swyddog Ariannol**
- Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis. Holwyd am drefniadau uwchraddio'r wefan mewn argyfwng – **Gweithredu: Clerc**
- Ar ôl i'r Clerc a'r Swyddog Ariannol adael yr ystafell, cytunwyd gydag argymhellion yr Is Bwyllgor cyllid ar gyflogau 2015-16.

1392 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- Cytunodd Alan Jones Evans i drafod diogelwch teithwyr wrth droi am Gynllwyd o'r B4403 gyda'r swyddogion perthnasol.
- Taclusrwydd ym Mhenantlliw: Tynnwyd sylw at y blerwch wrth y biniau ar waelod ffordd Bryncaled ac addawodd y Cyngorydd Sir y byddai'n cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol. **Gweithredu: Alan Jones Evans**
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran berthnasol parthed deunydd sydd yn yr encilfa wrth bont Lliw. **Gweithredu: Clerc**

1393 Partneriaeth Penllyn: Diolchwyd i Seimon Roberts am ei ymateb cadarnhaol parthed cynnal a chadw Llwybr y Cŵn. Diolchwyd hefyd am ei gyngor ar reoli mwsogl ar Lwybr y Cei a chytunwyd i drosglwyddo'i gyngor i sylw Partneriaeth Penllyn. **Gweithredu: Clerc**

1394 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- Cymeradwywyd cais NP5/71/LB347A sef Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol ac allanol i drosi eglwys plwyf yn ganolfan addysg dreftadaeth / cymunedol amlwrpas a rhan lety hostel 12 gwely.
- Cymeradwywyd cais NP5/71/LB347B sef newid defnydd o Ddosbarth defnydd DI i D1 gyda defnydd "sui generis" i'r elfen hostel a newidiadau allanol i drosi eglwys plwyf yn ganolfan addysg dreftadaeth / cymunedol amlwrpas a rhan lety hostel 12 gwely gyda maes parcio cysylltiedig â cysgodfan beiciau o fewn mynwent yr eglwys.

2. Eraill:

- Cytunwyd i ymateb i gais Cyngor Iechyd Cymuned am sylwadau ar gludiant wasanaethau iechyd. Diolchwyd i Arwel Lloyd Jones am ymateb i bryder trigolion lleol ac i Dafydd Elis Thomas am sicrhau datrysiaid i'r angen.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- ii. Derbyniwyd gwybodaeth gan Scottish Power na fydd fferm wynt yn cael ei greu yng nghoedwig Dyfnant.

- 1395 Cychwynnwyd ar drefniadau Noson Goffi Blynnyddol y Cyngor gan obeithio sicrhau grŵp o gantorion i ddiddanu ar 10/3/15 gyda'r elw yn mynd at Tenovus ac Alzheimers. **Gweithredu:**
Alwyn Roberts

7.30